# Mewnblannu falf aortig trawsgathetr (TAVI) falf-mewn-falf ar gyfer camweithrediad falf bioprosthetig aortig

26 Mehefin 2019

Mae'r driniaeth hon yn gweithio'n dda ar gyfer camweithrediad falf bioprosthetig aortig ac nid oes unrhyw bryderon difrifol ynglŷn â pha mor ddiogel ydyw.

Mae'r falf aortig yn rheoli llif y gwaed allan o siambr chwith y galon (y fentrigl chwith) i brif rydweli'r corff (yr aorta). Gellir rhoi falf artiffisial yn lle falf aortig sydd wedi culhau neu wedi'i threulio, drwy lawdriniaeth agored ar y galon neu drwy fewnblannu falf aortig trawsgathetr (TAVI). Os bydd falf bioprosthetig artiffisial (wedi'i gwneud o feinwe fiolegol) yn methu, gellir gosod falf bioprosthetig arall y tu mewn iddi drwy ddefnyddio tiwb (cathetr) a fewnosodir drwy doriad bach yn y croen ac wedyn drwy rydweli fawr. Gelwir hyn yn TAVI falf-mewn-falf. Nod hyn yw rhoi falf newydd yn lle'r falf ddiffygiol heb fod angen llawdriniaeth agored ar y galon.

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan arweiniad IechydTech NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

## Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN 978-1-4731-7972-1



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.